

Yn Gryno

Haf 2016

p2



Angen trwydded ar gyfer BBC iPlayer

Helo oddi wrth Trwyddedu Teledu


p3



Trwyddedu Teledu ar daith

Confederasiwn Grwpiau Cymunedol

p4



Holi Trwyddedu Teledu

Ffyrdd o dalu

Twitter yn datgelu sioeau sydd “Gwerth Ffi'r Drwydded”

Mae Trwyddedu Teledu wedi canfod bod *The Night Manager*, *The Hunt* a *Happy Valley* ymhlith y rhaglenni teledu sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf yn y DU.

Fe wnaeth cyfanswm o'r holl crybwylladau “gwerth ffi'r drwydded” ar Twitter dros y flwyddyn ddiwethaf ddatgelu bod mwy na 300 o raglenni a gwasanaethau unigol y BBC yn gysylltiedig â gwerth ffi'r drwydded.

Mae'r frawddeg, a ddefnyddiwyd mwy na 12,000 o weithiau, yn amlygu pa raglenni, gwasanaethau, cyflwynwyr neu actorion y mae pobl sy'n talu ffi'r drwydded yn eu gwerthfawrogi mewn perthynas â chost ffi flynyddol y drwydded.

The Night Manager, a wnaeth fachu sylw pawb gyda champau Tom Hiddleston a Hugh Laurie, oedd y mwyaf poblogaidd ymhlith defnyddwyr Twitter, gan gymryd y safle cyntaf gyda 492 o grybwylladau unigryw am gyfres teledu.

Roedd cyfres ddogfen Syr David



Mae *The Night Manager* ymhlith y rhaglenni teledu sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf yn y DU

Attenborough, *The Hunt*, yn un o'r safleoedd ar y brig hefyd, gyda mwy na 570 o ddefnyddwyr Twitter yn datgan bod y rhaglen, neu waith ehangach y darlledwr profiadol, yn werth ffi'r drwydded ei hun. Fe wnaeth bron mil o wylwyr drydar eu gwerthfawrogiad o raglenni dogfen natur yn ehangach, ac roedd 14 y cant o'r holl safbwyntiau “gwerth ffi'r drwydded” yn ymwneud

â rhaglenni drama.

Happy Valley, rhaglen ddrama drosedd, a ffilmwyd ac a leolwyd yn Calder Valley, oedd y drydedd sioe y soniwyd amdani fwyaf.

Mae'r data'n cynnig cipolwg unigryw ar werth ffi'r drwydded ac yn dangos bod cynulleidfaoedd yn deall y gost a'r raddfa sy'n gysylltiedig â chreu cynnwys teledu.

Dywedodd Jason Hill, llefarydd Trwyddedu Teledu: “Mae Twitter yn ffordd bwerus o rannu eich gwerthfawrogiad o'ch hoff sioe ac mae'r data'n dangos pa mor bwysig y mae'r sioeau teledu nodedig hyn i bobl sy'n talu ffi'r drwydded.

“Defnyddir ffi'r drwydded i ariannu rhaglenni a gwasanaethau'r BBC, ac mae'n ddiddorol nodi bod pobl yn dal i ymgysylltu â'r sioeau hyn mewn amser real. Er gwaethaf y newidiadau o ran ffyrdd newydd o wyllo, mae mwy na 95 y cant o'r gwyllo yn fyw, gyda'r rheiny sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu gwyllo ar eu teledu, ffonau neu lechi.”

Haf o Chwaraeon

O bencampwriaethau cyffrous Ewrop i Wimbledon a'r Gemau Olympaidd yn Rio, mae'r haf hwn wedi bod yn llawn chwaraeon rhyfeddol.

Mae wedi bod yn gyfnod lle mae cymunedau ledled y DU wedi dod at ei gilydd i gefnogi eu harwyr. Mae Trwyddedu Teledu a'r Gymdeithas Gweithredu Gwirfoddol a Chymunedol Genedlaethol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i atgoffa grwpiau cymunedol ac elusennau i wirio bod ganddynt drwydded i rannu'r digwyddiadau chwaraeon rhyfeddol ar y teledu, wrth iddynt ddigwydd.

Cynhyrchodd Trwyddedu Teledu [Ganllaw i Grwpiau Cymunedol](#), sy'n ateb cwestiynau cyffredin a ofynnodd grwpiau ac sy'n cynnwys gwybodaeth am gynnal dangosiadau unigol o ddigwyddiadau byw ac ad-daliadau.

Gyda llawer o bobl yn gwyllo'r digwyddiadau yn y gwaith, mae gan Trwyddedu Teledu [Ganllaw Gwyllo yn y Gweithle](#) i roi gwybod i bobl am y rheolau wrth wyllo teledu byw yn y gweithle. I gael gwybodaeth am ofynion trwyddedu ar gyfer grwpiau cymunedol, ewch i tvlicensing.co.uk/communityinfo

Bydd angen trwydded ar gyfer BBC iPlayer

Mae newid yn y gyfraith yn golygu, o 1 Medi 2016, bydd angen trwydded i lawrlwytho neu wyllo rhaglenni'r BBC ar alw, gan gynnwys dal i fyny, ar BBC iPlayer.

Mae'r newyddion hyn yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr, gan fod ymchwil gan Trwyddedu Teledu wedi datgelu mai iPlayer yw'r llwyfan dal i fyny mwyaf poblogaidd ymhlith myfyrwyr, cyn safleoedd fel YouTube a gwasanaethau gan gynnwys Netflix.

Mae'r arolwg yn cadarnhau bod y mwyafrif o fyfyrwyr bellach yn gwylio rhaglenni ar alw yn rheolaidd, gyda 2 neu 3 yn gwylio gwasanaeth dal i fyny. Gyda llai na chwarter o fyfyrwyr (22 y cant) yn mynd â theledu gyda nhw i'r brifysgol, mae gwylio ar-lein ar ddyfeisiau symudol, o bell ffordd, wedi dod yr hoff ffordd o wyllo cynnwys teledu dal i fyny.

Mae gwylio teledu yn parhau i fod yn rhan annatod o fywyd prifysgol, gydag 84 y cant o fyfyrwyr yn dweud ei fod yn rhoi cyfle iddyn nhw ymlacio ar eu pennau eu hunain a mwy na hanner ohonynt (60 y cant) yn sôn bod gwylio teledu yn gyfle gwych i ymlacio gyda ffrindiau.

I ddarganfod mwy o wybodaeth ac atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin ynghylch y Drwydded Teledu a'r newid yn y gyfraith, ewch i tvlicensing.co.uk/iplayerinfo



Mae gwylio teledu yn parhau i fod yn rhan annatod o fywyd prifysgol

Diweddariad cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gyda'n partneriaid, mae Trwyddedu Teledu yn parhau i ddatblygu nifer o welliannau amrywiaeth a chynhwysiant.

Yn ddiweddar, lansiom becyn hyfforddi ar gyfer swyddogion ymweld Trwyddedu Teledu, gyda'r nod o'u helpu i amlygu ac ymateb yn briodol i gwsmeriaid anabl neu agored i niwed y byddant yn eu gweld yn ystod ymweliadau. Cynhaliodd canolfan gyswllt Trwyddedu Teledu "Mis Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth" ym mis Mai, fel rhan o raglen barhaus i gynnal ymwybyddiaeth ymhlith staff.

Rydym yn gweithio tuag at gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys ychwanegu neges at ein cyfathrebiadau i hysbysu cwsmeriaid ein bod ni'n croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

Helo oddi wrth Trwyddedu Teledu

Mae newidiadau sylweddol wedi bod ers ein rhifyn diwethaf. Yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Mai, cyhoeddodd y Llywodraeth gynlluniau i gau'r "dihangfa iPlayer". Fel y nodir yn ein stori uchod, o 1 Medi 2016, bydd newid yn y gyfraith yn golygu y bydd angen trwydded teledu arnoch i lawrlwytho neu wyllo rhaglenni'r BBC ar alw - gan gynnwys dal i fyny - ar BBC iPlayer. Bydd yn berthnasol i bob dyfais, gan gynnwys teledu clyfar, cyfrifiadur bwrdd gwaith neu liniadur, ffôn symudol, llechen, blwch digidol neu gonsol gemau. Anfonais neges e-bost Newyddion Polisi ynghylch y pwnc - os na wnaethoch ei derbyn ond hoffech gopi, cysylltwch â mi. Gallwn hefyd ddarparu copïau o'r daflen wybodaeth fer, os hoffech eu harchebu ar gyfer eich sefydliad.

Roedd yn wych gweld cymaint ohonoch yn diweddar yng nghynhadledd IMA (Institute of Money Advisers) ym Manceinion a chynhadledd NASMA (National Association of Student Money Advisers) yn Solihull. Bydd gennym stondin yng nghynhadledd Advice UK ym mis Hydref hefyd felly galwch heibio i ddweud helo.

O gwmpas y wlad, rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o grwpiau, yn darparu cyngor a chymorth gwerthfawr mewn cymunedau lleol. Maent yn cynnwys Money Lifeline Basingstoke, Jobs & Business Glasgow, Fairways Independent Living yng Ngogledd Iwerddon, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru, a nifer o sefydliadau eraill.

Rydym bob amser yn awyddus i weithio gyda sefydliadau lleol ac, os ydych o'r farn y gallech elwa ar weithio gyda ni, cysylltwch â mi ar campaignoffice@tvlicensing.co.uk i



gael mwy o wybodaeth.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn o YnGryno. Cysylltwch os oes gennych unrhyw adborth neu awgrymiadau ar gyfer y cylchlythyr nesaf. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y newidiadau ynghylch iPlayer, ewch i tvlicensing.co.uk/iplayerinfo

Dan Higgins
Golygydd, YnGryno



Trwyddedu Teledu ar daith



Mae Trwyddedu Teledu'n gweithio'n agos gyda sefydliadau cymunedol ledled y DU. Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar Confederation of Community Groups. Mae YnGryno yn siarad â Raymond Jackson, prif weithredwr yr elusen yng Ngogledd Iwerddon.

Q1. Yn gryno, pa wasanaethau y mae Confederation of Community Groups yn ei gynnal?

Wedi'i leoli yn Newry, mae Confederation of Community Groups (CCG) yn sefydliad datblygu cymunedol ymbarél sy'n cynorthwyo pob rhan o'r gymuned, yn enwedig y rheiny dan anfantais, pobl sydd wedi cael eu hallgáu'n gymdeithasol, pobl sydd wedi ymddieithio a'r rheiny sy'n dioddef y lefelau uchaf o dlodi. Rydym yn hwyluso ymgysylltu ystyrlon ac yn helpu i ddatrys problemau creadigol ar y cyd rhwng dinasyddion, asiantaethau a gwneuthurwyr penderfyniadau o safbwynt "o'r gwaelod i fyny".

Mae ein gwaith wedi cael ei drefnu o fewn pedwar maes gwaith: datblygu cymunedol, gwirfoddoli, cyngor a gwybodaeth, a menter gymdeithasol.

Q2. Sut mae eich rôl yn gweddu i'r sefydliad a beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Fel prif weithredwr, rwy'n gyfrifol am reoli ac arwain y sefydliad yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys datblygu, gweithredu ac adolygu strategaethau a pholisïau.

Fel sefydliad cymharol fach (13 aelod o staff), yr hyn rwy'n ei fwynhau fwyaf yw amrywiaeth fy rôl – o weithio mewn datblygu strategol i gyfathrebiadau. Rwy'n arbennig o falch o ddatblygiad ein menter gymdeithasol (Ballybot House and An Stóras) sy'n cynnwys canolfan adnoddau aml-ddiben, yn ogystal â swyddfeydd

ffoddiadwy, cyfleusterau gofal dydd, hyfforddiant a llogi'r lleoliad ar gyfer CCG ac oddeutu 20 o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol.

Q3. Beth yw'r problemau cyffredin y mae eich cleientiaid yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, mae ein cleientiaid yn dioddef amrywiaeth eang o broblemau, fel tlodi (cysylltiedig â rheoli dyledion, newidiadau i'r system fudd-daliadau a thlodi tanwydd), arwahanrwydd cymdeithasol (yn enwedig ymhlith pobl hŷn), anghydraddoldebau iechyd, cyrhaeddiad addysgol isel a phroblemau cysylltiedig ag iechyd meddwl.

Q4. Dywedwch wrthym am ymgyrch neu brosiect diweddar rydych wedi gweithio arno – pam yr oedd mor llwyddiannus?

Yn ddiweddar, fe wnaethom gwblhau gwaith ailwampio mawr yn ein canolfan campio gwirfoddol, a oedd yn cynnwys dymchwel stordai, gosod TG ac ehangu'r ganolfan.

Bydd hyn yn caniatáu i ni gynyddu'r gwasanaethau a gynigir trwy ein rhaglen Older Peoples, gan gynnwys gwasanaeth galwad ffôn Good Morning, Home Secured a'n gwasanaeth Good Day-Good Carer.

Yr hyn a'i gwnaed mor llwyddiannus oedd, trwy gyfuno ein cronfa wrth gefn ag arian cyfalaf gan Sefydliad Wolfson, roeddem yn gallu darparu

canolfan bwrpasol ar gyfer ein nifer gynyddol o wirfoddolwyr, yn ogystal â chwe gorsaf ffôn ychwanegol.

Q5. Beth yw buddion sefydliadau'n ffurfio partneriaethau gyda Trwyddedu Teledu?

Trwy ein partneriaeth, rydym yn gallu darparu cyngor da ynghylch taliadau ac eithriadau sy'n ymwneud â Trwyddedu Teledu. Rydym hefyd yn gallu dosbarthu llenyddiaeth a gwybodaeth i sefydliadau cymunedol ac i'n haelodau, gan gynnwys trwy'r wefan ac e-gylchgrawn.

Mae modd defnyddio'r wybodaeth hon i helpu defnyddwyr gyllidebu ar gyfer eu trwydded deledu, gwneud cais am eithriadau a chytuno ar strwythurau talu addas.



**CONFEDERATION OF
COMMUNITY GROUPS**

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â Confederation of Community Groups ar 028 302 61022 neu ewch i'r wefan www.ccgnewrycommunity.org



Holi Trwyddedu Teledu

Mae tîm Cysylltiadau Cymunedol Trwyddedu Teledu yn siarad â channoedd o sefydliadau bob blwyddyn i helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn deall pryd mae angen trwydded a sut i dalu. Rydym yn aml yn mynychu cynadleddau, yn darparu gweithdai ac yn cynnal sesiynau holi ac ateb.

Fel rhan o nodwedd reolaidd, rydym yn darparu atebion i gwestiynau cyffredin. Oes gennych gwestiwn sydd angen ei ateb? Anfonwch neges e-bost at campaignoffice@tvlicensing.co.uk neu ffoniwch 020 875 26537.



O 1 Medi 2016, mae'r llywodraeth yn newid y gyfraith i wneud rhaglenni'r BBC ar alw'n drwyddedadwy. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â gwylio rhaglenni byw, ni waeth ar ba sianel, bydd angen trwydded deledu ar eich cleientiaid i wyllo rhaglenni teledu'r BBC ar alw, er enghraifft, unrhyw beth y byddant yn ei wyllo trwy BBC iPlayer. Mae hyn yn cynnwys lle caiff iPlayer ei gyrchu trwy ddarparwr arall, fel Sky neu Virgin, a bydd yn berthnasol i bob dyfais, fel ffonau a llechi. Ni fydd angen trwydded i wyllo gwasanaethau ar alw eraill, fel ITV Player neu Netflix, ac os bydd eisoes ganddynt drwydded, byddant yn cael eu cynnwys fel mater o drefn.

Beth yw ystyr 'ar alw'?

Unrhyw raglen rydych yn ei lawrlwytho neu'n ei gwylio na chaiff ei dangos fel teledu byw - gan gynnwys dal i fyny. Byddwch yn cyrchu'r rhaglenni hyn ar wefan neu trwy ap ar deledu clyfar, blwch digidol neu unrhyw ddyfais arall. Mae ar alw hefyd yn cynnwys rhaglenni unigryw sydd ar gael ar-lein yn unig.

Mae mwy o wybodaeth ar ein gwfan www.tvlicensing.co.uk/iplayerinfo

A oes angen trwydded deledu ar fy nghleient os yw'n defnyddio gwasanaethau eraill fel Sky Go, All4 neu ITV Hub?

Mae wastad wedi bod angen trwydded i wyllo teledu byw trwy wasanaethau fel y rhain. Ond, os yw'n ei ddefnyddio i wyllo rhaglenni ar alw'n unig, nid oes arno angen trwydded.

Fel o'r blaen, mae angen trwydded i wyllo neu recordio teledu byw ar unrhyw sianel, pa bynnag ddyfais a ddefnyddiwyd.

Beth yw'r newid a fydd yn effeithio ar ad-daliadau'r flwyddyn nesaf?

Mae mwyafrif yr ad-daliadau a gynigir gan Trwyddedu Teledu, ar wahân i rai categorïau arbenigol, yn ad-daliadau chwarterol, lle bydd Trwyddedu Teledu'n ad-dalu chwarteri heb eu defnyddio o drwydded, os na fydd angen y drwydded eto cyn iddi ddod i ben. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2017, Bydd Trwyddedu Teledu'n cynnig ad-daliadau misol, fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar y BBC ar 12 Mai 2016.

Ffyrdd o dalu: mae sawl ffordd y gallwch dalu am drwydded deledu

Debyd Uniongyrchol

Ffoniwch 0300 790 6112 i sefydlu taliad Debyd Uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol. Mae'r mwyafrif o gwsmeriaid bellach yn defnyddio Debyd Uniongyrchol, ac mae nawr yn bosibl ei sefydlu ar-lein ar tvlicensing.co.uk/payinfo.

Cerdyn Debyd neu Gredyd

Ffoniwch 0300 790 6112 i dalu â cherdyn debyd neu credyd. Mae'r cyfleuster hwn yn derbyn taliad trwy amrywiaeth o gardiau debyd, gan gynnwys Maestro/Switch a Delta. Gallwch dalu ar-lein hefyd ar tvlicensing.co.uk/payinfo.

Drwy'r post

Anfonwch sic yn daladwy i TV Licensing i: Customer Services, TV Licensing, Darlington, DL98 1TL.

Dros y cownter

Gallwch wneud taliad yn bersonol mewn un o fwy na 24,000 o allfeydd PayPoint ledled y DU.

Ewch i paypoint.co.uk/locator i ddod o hyd i'ch allfa agosaf. I ddarganfod mwy am ddefnyddio PayPoint i wneud taliadau trwy gynllun talu ag arian parod, ffoniwch 0300 555 0300.

Cerdyn Talu Trwyddedu Teledu

Mae Cerdyn Talu Trwyddedu Teledu wedi cael ei ddylunio i helpu pobl i gynilo tuag at gost eu trwydded deledu nesaf mewn symiau bach, posibl. Gall pobl wneud taliad ar unrhyw adeg, ar-lein, drwy neges destun, mewn allfa PayPoint neu dros y ffôn. Ffoniwch 0300 555 3434 i gael mwy o wybodaeth.

Rhifau defnyddiol eraill

Hysbysu ynghylch newid cyfeiriad	0300 790 6112
Ymholiadau ynghylch cynllun talu ag arian -parod	0300 790 6078
Ceisiadau am lenyddiaeth Trwyddedu Teledu	0208 752 6537
Cyfleuster Amlieithog	0300 790 6044
Cyfleuster Minicom	0300 790 6050
Ymholiadau gan bobl dros 75 oed	0300 790 6154



Dilynwch ni ar [Twitter](https://twitter.com/tvlicensing)



Gwylwch ni ar [YouTube](https://www.youtube.com/tvlicensing)



Gwrandewch arnom ni ar [AudioBoom](https://www.audioboom.com/tvlicensing)